PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# CYMRU IFANC

# GWEITHIWR YMGYSYLLTU Â GWIRFODDOLWYR

## Pecyn Ymgeisio

childreninwales.org.uk

# Cyflwyniad

**Teitl y Swydd:** Gweithiwr Ymgysylltu â Gwirfoddolwyr

**Yn adrodd i'r:** Uwch Swyddog Cyfranogiad

**Lleoliad:** Caerdydd – gweithio ystwyth o'r cartref neu yn ein swyddfa gyda chyfarfodydd misol o leiaf wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd

**Oriau Gwaith:** 28 awr yr wythnos

Lluniwyd yr wybodaeth amgaeedig i roi darlun llawnach i chi o ofynion y swydd a gwybodaeth am Plant yng Nghymru.

Lluniwyd y disgrifiad swydd i grynhoi'n glir gwmpas a chyfrifoldebau'r swydd, a dylid ei ddarllen yn drylwyr. Diben y fanyleb person yw nodi, mor fanwl gywir â phosibl, y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn i ymgeiswyr fedru bodloni gofynion y swydd. **Mae'n hanfodol eich bod yn darllen hyn yn ofalus ac yn rhoi sylw i'r meini prawf a geir yn y fanyleb person yn eich cais.** Os na wnewch hynny, bydd gennych lawer llai o gyfle o gael eich dewis ar gyfer cyfweliad.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 9am ddydd Llun 15 Ionawr 2024**

**Byddwn ni'n cynnal cyfweliadau ddydd Iau 26 Ionawr 2024**

Rydyn ni'n ymroddedig i ddarparu gwasanaethau sy'n croesawu amrywiaeth ac yn hybu cyfle cyfartal. Seiliwyd hynny ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a byddwn yn glynu at y drefn honno ym mhob cam o'r broses recriwtio.

Rydyn ni'n ymroddedig i fod yn gorff gwrth-hiliol a chynyddu amrywiaeth trwy ddileu rhwystrau a chefnogi ein holl staff i gyflawni eu potensial. Rydyn ni'n ymroddedig i recriwtio pobl Ddu, Asiaidd ac o leiafrifoedd Ethnig, a phobl anabl, sydd wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd yn Plant yng Nghymru.

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan bawb, heb ystyried oedran, priodas a phartneriaeth sifil (un rhyw a gwahanrywiol), namau neu gyflyrau iechyd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd.

Ein panel recriwtio fydd yn llunio'r rhestr fer ar gyfer cyfweld. Fyddan nhw ddim yn gweld eich manylion cyswllt nac unrhyw wybodaeth cyfle cyfartal. Bydd yr wybodaeth a gafwyd gan ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei chadw'n ddiogel am gyfnod o 1 flwyddyn, ac yna'n cael ei dinistrio heb ei datgelu.

I arbed costau, dim ond trwy e-bost y gallwn gydnabod ein bod wedi derbyn eich cais.

Os llwyddwch i symud ymlaen i gyfweliad, cewch wybod trwy'r cyfeiriad e-bost a roddwyd i ni.

.

# Gwybodaeth Bellach

**Contract:** Cyfnod Penodol tan 31 Mawrth 2025, gydag estyniad yn bosibl

**Oriau Gwaith:** 28 awr yr wythnos

**Graddfa Gyflog:** £33,864 y flwyddyn pro rata

**Gwyliau Blynyddol:** 25 diwrnod y flwyddyn pro rata

**Dull Talu:** Telir cyflogau'n uniongyrchol i'r cyfrif banc a enwebwyd gan yr aelod o staff ar y 15fed o bob mis

**Pensiwn:** Caiff cyflogeion Plant yng Nghymru eu cofrestru'n awtomatig ar Gynllun Pensiwn y Gweithle, ond gallwch ddewis optio allan

**Gweithle:** Plant yng Nghymru, 21 Plas Windsor, Caerdydd CF10 3BY – gweithio ystwyth o'ch cartref neu yn ein swyddfa

# Disgrifiad Swydd

**Teitl y Swydd:** Gweithiwr Ymgysylltu â Gwirfoddolwyr

**Yn adrodd i'r:** Uwch Swyddog Cyfranogiad Cymru Ifanc

**Lleoliad:** Caerdydd – gweithio ystwyth o'ch cartref neu yn ein swyddfa

**Oriau Gwaith:** 28 awr yr wythnos

**Prif ddiben y rôl:**

Rhoi arweiniad sy'n ysbrydoli i Plant yng Nghymru wrth gyflwyno Rhaglen Wirfoddoli Cymru Ifanc. Bydd hyn yn cynnwys recriwtio a chefnogi pobl ifanc o bob rhan o Gymru i gael mynediad at gyfleoedd i wirfoddoli, yn ogystal ag arwain y gwaith o gyflwyno gwyliau preswyl a blynyddol er mwyn sicrhau cyfle ystyrlon i ymgysylltu ar gyfer gwirfoddolwyr Cymru Ifanc. Bydd deilydd y swydd yn gweithio fel rhan o dîm bywiog yn Cymru Ifanc i feithrin a chynnal perthnasoedd cryf o fewn a'r tu allan i'r sefydliad, er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni'n effeithiol; bod cyfraniadau gwirfoddolwyr yn cael eu cydnabod a'u dathlu; a'n bod ni'n darparu profiad ardderchog i'n gwirfoddolwyr.

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau**

1. Recriwtio, Hyfforddi a Sefydlu

- Cyflwyno ymgyrch recriwtio sy'n ennyn diddordeb a goruchwylio'r broses recriwtio ar gyfer Gwirfoddolwyr Cymru Ifanc, gyda ffocws ar dderbyn rhai yn flynyddol yn y gwanwyn, yn ogystal â rhaglen dreigl o ymuno.

- Cyflwyno cynllun hyfforddi a sefydlu difyr, sy'n rhoi boddhad, i'n holl wirfoddolwyr. Gall hyn gynnwys proffiliau unigryw er mwyn sicrhau cyfoeth o gyfleoedd.

- Cynllunio a chyflwyno cyfleoedd i ddysgu ac ymgysylltu trwy sesiynau preswyl chwarterol a'n Gŵyl Cymru Ifanc flynyddol.

2. Ymgysylltu a Chefnogi

- Sicrhau cynhwysiad y cyfleoedd gwirfoddoli a mynediad iddynt trwy weithio gyda phartneriaid i ddileu rhwystrau i gyfranogiad yn Rhaglen Wirfoddoli Cymru Ifanc.

- Cynnig pecyn cynhwysfawr o gymorth i Wirfoddolwyr Cymru Ifanc fel eu bod yn teimlo y gallan nhw ymgysylltu'n llawn â chyfleoedd, a bod eu holl anghenion yn cael eu hystyried.

- Arwain y gwaith o integreiddio system rheoli gwirfoddolwyr ac adolygu'r system wedi hynny.

- Arwain y gwaith o gynllunio ar gyfer Sesiynau Preswyl Cymru Ifanc a Gwirfoddolwyr yn yr Ŵyl Flynyddol, gan gynnwys sicrhau bod llais pobl ifanc yn rhan o'r cynllunio yma. Bydd angen gweithio ar y penwythnos o bryd i'w gilydd.

3. Dysgu a Datblygu

- Sicrhau bod Gwirfoddolwyr Cymru Ifanc yn cael cyfle i gyfranogi yn hyfforddiant a chyfleoedd datblygu achredig Agored Cymru
- Cydlynu unrhyw achosion o fanteisio ar ddysgu achrededig a'i asesu
- Nodi ffyrdd o ddathlu llwyddiannau dysgu a datblygu yn ystod y rhaglen.

4. Ansawdd, Effaith a Phrofiad

- Datblygu a chyflwyno mecanwaith adborth effeithiol i goladu gwybodaeth a thystiolaeth ynghylch profiad o raglen Gwirfoddoli Cymru Ifanc.
- Sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad ar draws ein cyfleoedd i wirfoddoli, ein recriwtio a'n profiadau i bobl ifanc o amrywiaeth eang o gefndiroedd.
- Hyrwyddo ac arwain y gwaith o ddiogelu plant ac oedolion bregus o fewn y mecanweithiau cefnogi, fel bod modd i'n gwirfoddolwyr gael profiad diogel, cefnogol.
- Adrodd ar y nifer sy'n rhan o'r rhaglen gwirfoddolwyr a'u hymgysylltiad, gan gynnwys adroddiadau naratif a setiau data o'r system rheoli gwirfoddolwyr.
- Datblygu offeryn mesur i ystyried y pellter mae gwirfoddolwyr wedi'i deithio o ran datblygu sgiliau a chynnydd yn eu sgiliau meddal.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol, gan y gallai Plant yng Nghymru ofyn bod deilydd y swydd yn cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill, o bryd i'w gilydd, wrth gyfrannu at gyflawni ei weithgareddau.

# Manyleb Bersonol

**Cyffredinol**

Mae swydd y Swyddog Ymgysylltu â Gwirfoddolwyr yn gyfle cyffrous i fod ar y blaen yn datblygu profiadau i Wirfoddolwyr Ifanc yng Nghymru. Bydd angen i chi weithio'n agos gyda chydweithwyr yn y sefydliad, a chyda phartneriaid yn sefydliadau ein haelodau.
Bydd angen bod deilydd y swydd yn gallu gweithio'n hyblyg a meithrin perthnasoedd gwaith da.

Bydd gofyn bod deilydd y swydd yn teithio i ddigwyddiadau a chyfarfodydd ledled Cymru.

**Gofynion Allweddol – Hanfodol**

Addysg a Phrofiad:

- Profiadol yn rheoli gwirfoddolwyr a/neu'n weithiwr ymgysylltiad ieuenctid profiadol
- Gwybodaeth am arfer da a deddfwriaeth ym maes gwirfoddoli a sut mae cymhwyso hynny i'r sector plant a phobl ifanc
- Profiad o recriwtio, datblygu a chydnabod gwirfoddolwyr
- Ymwybyddiaeth o ddull gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant
- Dealltwriaeth o egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad mewn perthynas â gwirfoddoli
- Profiad o weithio ar y cyd ag eraill
- Profiad o hwyluso cyfleoedd hyfforddi a dysgu sy'n ennyn diddordeb pobl ifanc.

Galluoedd, sgiliau ac addasrwydd:

- Gallu rheoli cronfeydd data/systemau digidol i oruchwylio rhaglenni gwirfoddolwyr
- Gallu cynhyrchu adroddiadau, briffiadau, polisïau clir, cryno a llawn gwybodaeth
- Sgiliau rhyngbersonol a llafar ardderchog
- Gallu gweithio mewn tîm, gan gynnwys fforymau i blant a phobl ifanc
- Gallu rhoi rhaglenni ar waith at safonau uchel, a chadw at derfynau amser wrth weithio.
- Gallu cynrychioli Plant yng Nghymru mewn fforymau priodol.
- Dealltwriaeth o heriau a manteision gwirfoddoli yng Nghymru.
- Gallu cynllunio a chyflwyno digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar gyfranogiad pobl ifanc.

**Gofynion Allweddol – Dymunol**

Addysg a Phrofiad

- Profiad o drefnu a chyflwyno digwyddiadau recriwtio a chydnabod gwirfoddolwyr
- Profiad o gynhyrchu ystod o ddeunyddiau ysgrifenedig, gan gynnwys cynlluniau hyfforddi a sefydlu
- Dealltwriaeth o fonitro, gwerthuso ac adrodd i gyrff grantiau
- Gallu i gyfathrebu yn Gymraeg, neu ymrwymiad i ddysgu'r iaith
- Profiad o weithio ym maes polisi ac arweiniad amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion agored i niwed
- Profiad o gyflwyno hyfforddiant achrededig.

# Gwybodaeth Gefndir

Children in Wales – Plant yng Nghymru yw'r corff cynrychioliadol cenedlaethol o aelodau ar gyfer unigolion a sefydliadau o bob sector sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Daw ein haelodau o'r sectorau cyhoeddus, elusennol/nid-er-elw ac annibynnol. Bydd ein gwaith wedi'i seilio ar ddull cydweithredol, sy'n hwyluso cyfleoedd i'n haelodau, ac i blant a phobl ifanc.

Byddwn ni'n gweithio tuag at gyflawni ein gweledigaeth ar y cyd â'n haelodau trwy wneud y canlynol:

- Ymgyrchu dros fabwysiadu a gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn llawn ar bob lefel o'r gymdeithas yng Nghymru.
- Herio anghydraddoldeb a hybu tegwch i'r holl blant a phobl ifanc ledled Cymru.
- Cyfuno a chwyddo llais ar y cyd dros newid trawsffurfiannol ar lefel polisi yng Nghymru.
- Hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn strwythurau gwneud penderfyniadau ar bob lefel o'r llywodraeth yng Nghymru.
- Darparu llwyfan ar gyfer rhannu ymarfer arloesol ledled Cymru.
- Eiriol o blaid y sector(au) plant mewn meysydd blaenoriaeth.
- Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu i'r gweithlu plant proffesiynol ar draws sectorau.
- Ymgymryd â gwaith ymchwil a'i ledaenu ymhlith ein haelodau.

Mae Plant yng Nghymru yn cyflawni nifer o weithgareddau er mwyn cyrraedd y nodau hyn. Yn eu plith mae:

- Trefnu cynadleddau a seminarau
- Darparu hyfforddiant
- Cefnogi a datblygu rhwydweithiau a fforymau cryf
- Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth
- Cynrychioli'r aelodau ac ymgynghori â nhw
- Gwaith ymchwil
- Gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc trwy ein prosiect Cymru Ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r cyrff cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae ganddo gysylltiadau cryf yn Ewrop ac yn rhyngwladol.

Fel corff o aelodau rydym ni'n sefydlu rhwydweithiau yng Nghymru er mwyn cynrychioli barn yr etholaeth, canfod pryderon cyffredin, ac annog gweithgaredd amlddisgyblaeth. Gall yr aelodau fod yn rhai corfforaethol neu unigol, a deuant o ystod eang o ddiddordebau, megis iechyd, addysg, sefydliadau gwirfoddol, gwasanaethau cymdeithasol, neu grwpiau hunan-gymorth.

Ariannir ein gwaith trwy grantiau gan Lywodraeth Cymru, rhoddwyr grantiau eraill, ac incwm a gynhyrchwn ein hunain.

Llywodraethir gwaith y sefydliad gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr

http://www.childreninwales.org.uk/